# Cronfa Integreiddio Rhanbarthol - Proffil dwy dudalen

## *Uchelgais 1 (PR017)*

Dengys y proffil hwn y manylion lefel uchel sy'n ymwneud â'r cynnig blynyddol, monitro a gwerthuso, gan gynnwys dangosyddion, mesurau perfformiad, gwariant a'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

**Trosolwg/crynodeb o'r rhaglen**

Mae'r fenter hon yn canolbwyntio ar ymyriadau cynnar i sicrhau ymatebion amserol, cymesur i anghenion unigolion, gan hyrwyddo annibyniaeth, llais a dewis. Y nod yw darparu gwasanaethau cwbl hygyrch dros oriau estynedig, saith diwrnod yr wythnos. Y prif nod yw darparu gofal iechyd a chymdeithasol cydgysylltiedig, di-dor wedi'i deilwra i anghenion unigol, ac mae'r amcanion allweddol yn cynnwys:

1. **Mynediad Saith Diwrnod:** Trawsnewid gwasanaethau cymunedol i fod yn gwbl weithredol bob dydd, gan ddarparu gofal parhaus ac amserol.
2. **Gwasanaethau Ailalluogi:** Cynnig gwasanaethau ailalluogi annethol sy'n hygyrch dros saith diwrnod, gan gefnogi annibyniaeth a lleihau derbyniadau i'r ysbyty.
3. **Ehangu'r Tîm Ymateb Symudol:** Cynyddu gallu'r tîm i wella amseroedd ymateb a lleihau trosglwyddiadau diangen i'r ysbyty.
4. **Cefnogaeth Tîm Clinigol Acíwt:** Sicrhau gweithrediad effeithiol dros oriau estynedig, gan ganolbwyntio ar osgoi derbyniadau i'r ysbyty a chefnogi rhyddhau clinigol.

Mae'r rhaglen hon yn ymestyn y tu hwnt i'r Gronfa, gan ffurfio rhan graidd o'r dull system gynhwysfawr o fewn y Tîm Adnoddau Cymunedol. Cyfoethogir gwaith a ariennir yn greiddiol gan adnoddau o'r cytundeb cronfa gyfun Adran 33, sy'n blaenoriaethu oedolion hŷn, gan gynnwys y rhai â dementia.

## Cynnyrch RIF:

*Model gofal sylfaenol:*

Adref o'r ysbyty

*Grŵp/iau poblogaeth â blaenoriaeth:*

Pobl hŷn

*Galluogwyr:*

Cynllunio a chomisiynu integredig

Datblygu ac integreiddio'r gweithlu

*Dull rhanbarthol:*

Cyflwynir y rhaglen gan BIP CTM, CBS Pen-y-bont ar Ogwr a phartneriaid trydydd sector ac mae'n gweithredu ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn unig ar hyn o bryd.


## Blaenoriaeth (Cysylltiedig â'r Cynllun Ardal)

Bydd pobl hŷn a phobl â dementia yn mwynhau iechyd a llesiant da ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol yn hirach.

Bydd pobl hŷn a phobl â dementia yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i aros yn eu cartref cyhyd â phosibl, neu i symud yn ôl adref cyn gynted â phosibl ar ôl cael eu derbyn i'r ysbyty.

Bydd pobl â dementia a'u teuluoedd yn cael mynediad at yr wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt.

## Gwariant prosiect – £1,079,000 (BA 2023/24)




## *Prosiectau/partneriaid sy'n cefnogi cyflawni:*

| |
|---|
| BIP CTM |
| CBSP |
| BAVO |
| |
| |
| Sector gwirfoddol |


## *Crynodeb o wariant:*

Mae'r cyllid a dderbynnir gan y Gronfa yn gyfraniad tuag at ddarparu ystod fwy o wasanaethau cymorth adsefydlu sy'n gweithredu ar draws y rhanbarth cyfan. Defnyddiwyd y cyllid a ddarparwyd yn ystod 2023/24 yn llawn yn ystod y flwyddyn.


## Allbynnau rhaglen (ffigurau blynyddol):
(gan gynnwys mesurau canlyniad ychwanegol)

| | |
|---|---|
| Nifer y dechreuwyr newydd (ACT) | 181 |
| Nifer yr ymweliadau a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Ymatebwyr Symudol (MRT) | 4748 |
| Nifer Dechreuwyr Newydd (65+) (Ailalluogi Annethol) | 464 |
| Dechreuwyr cymunedol (65+) (Ailalluogi Annethol) | 277 |
| Galwadau a gyflwynwyd (pwynt mynediad cyffredin) | 8087 |
| Galwadau yr ymdriniwyd â hwy (pwynt mynediad cyffredin) | 4964 |
| Nifer y Gweithiwr Cefnogi Hyfforddiant Atal Cwympiadau a gynhaliwyd | 35 |

## Canlyniadau rhaglen: (mesurau sylfaenol) (Rhifau)




## Canlyniadau rhaglen: (mesurau sylfaenol)




## Trosolwg perfformiad: (crynodeb)

Cyflawnodd y rhaglen ganlyniadau cadarnhaol gan gynnwys hwyluso rhyddhau diogel, lleihau derbyniadau i'r ysbyty, a sicrhau cefnogaeth gymunedol amserol. Hwyluswyd rhyddhau 214 o bobl o'r ysbyty ac osgowyd 154 o dderbyniadau i'r ysbyty, gan drosi i 1585 o ddiwrnodau gwely wedi'u harbed. Arweiniodd yr ymdrechion hyn at arbediad cost amcangyfrifedig o £244,644 ar gyfer diwrnodau gwely mewn ysbytai a £396,597 yn sgil llai o ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys, gan ddangos manteision ariannol y rhaglen. Mae cyflawniadau allweddol yn cynnwys 4748 o ymweliadau gan yr MRT, a lwyddodd i atal 4143 o alwadau ambiwlans, gan amlygu gallu'r tîm i ddarparu gofal amserol yn y cartref. Mae integreiddio gwasanaethau teleofal ar gyfer 2597 o unigolion yn dystiolaeth bellach o ymrwymiad y rhaglen i ddefnyddio technoleg i wella diogelwch cleifion ac annibyniaeth yn y cartref.
Er gwaethaf heriau fel recriwtio a chadw staff, ansicrwydd ariannu, a system TGCh, mae'r rhaglen wedi darparu gofal amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bu adborth rhanddeiliaid yn hynod gadarnhaol, gyda phobl yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth prydlon, cysidrol ac effeithiol.

## Effaith y rhaglen (ansoddol):

Mae pobl wedi mynegi'u gwerthfawrogiad am natur brydlon a chefnogol y gwasanaethau a ddarperir, gan amlygu gwell ansawdd bywyd a gwell annibyniaeth. Maen nhw'n gwerthfawrogi'r cynllunio gofal personol a'r ymwneud â gwneud penderfyniadau, sydd wedi eu grymuso i reoli eu hiechyd a'u llesiant yn effeithiol.

Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn cydnabod rôl y rhaglenni o ran symleiddio prosesau rhyddhau a lleihau derbyniadau i'r ysbyty, a thrwy hynny wella llif cleifion a dyrannu adnoddau o fewn y system. Nodwyd yn arbennig y gwaith o integreiddio gwasanaethau teleofal am hyrwyddo diogelwch a thawelwch meddwl ymhlith pobl, gan feithrin ymdeimlad o ddiogelwch a pharhad gofal yn y cartref.

At hynny, mae rhanddeiliaid yn canmol y dull cydweithredol a'r gallu i gydgysylltu'n ddi-dor ar draws disgyblaethau. Mae'r fframwaith aml-asiantaeth hwn yn sicrhau cefnogaeth gyfannol i unigolion, gan fynd i'r afael nid yn unig ag anghenion iechyd uniongyrchol ond hefyd ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n effeithio ar lesiant.

Ar y cyfan, nodweddir effaith ansoddol y rhaglen gan well boddhad cleifion, gwell cydgysylltu gofal, a chydnerthedd cymunedol cryfach trwy ddarparu gwasanaethau rhagweithiol a chynhwysol.

## Argymhellion:

**Parhau i ariannu'r Rhaglen.**

Dangosodd y rhaglen dystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol i'r bobl y mae'n eu cefnogi a'u gofalwyr/teulu ond dangosodd ostyngiad mewn canlyniadau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Mae'r rhaglen gyfan yn elfen allweddol o'r RIF a bydd yn rhan o gynlluniau'r dyfodol ynghylch darparu'r 2 lwybr newydd. Bydd yn rhan annatod o gefnogi pobl i aros yn annibynnol, yn ddiogel gartref ac adref o'r ysbyty ar ôl cael eu derbyn i'r ysbyty.

**Ystyriaethau ychwanegol:**

Strategaeth ariannu hirdymor: Dylid ystyried trefniadau ariannu sefydlog, hirdymor i gefnogi cynllunio strategol ac ehangu gwasanaethau. Byddai hyn yn lliniaru ansicrwydd sy'n ymwneud â chylchoedd ariannu tymor byr ac yn galluogi gwell dyraniad adnoddau ar gyfer darparu gwasanaethau parhaus ac arloesi.

Gwella'r seilwaith TGCh: Dylid gwella'r broses o integreiddio systemau TGCh (fel WCCIS/WPAS/WNR) i hwyluso rhannu data di-dor a gwella cydgysylltu gofal ar draws gwahanol ddarparwyr gwasanaethau. Byddai hyn yn symleiddio llif gwaith, yn lleihau beichiau gweinyddol, ac yn sicrhau bod gwybodaeth gynhwysfawr am gleifion ar gael i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol perthnasol.